Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2021 Rhif 1403 (Cy. 365)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 30 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn nodi'r amodau cymhwystra y mae rhaid i gyngor cymuned eu bodloni cyn y caiff benderfynu dod yn gyngor cymuned cymwys.

Mae dod yn gyngor cymuned cymwys yn galluogi cyngor cymuned i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddiben Pennod 1 o Ran 2 o Ddeddf 2021.

Mae'r ail amod cymhwystra wedi ei nodi yn adran 30(3) o Ddeddf 2021 ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i glerc cyngor cymuned ddal cymhwyster neu ddisgrifiad o gymhwyster o fath a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r cymwysterau y mae rhaid i'r clerc eu dal er mwyn i'r cyngor cymuned fodloni'r ail amod cymhwystra. Rhaid i'r clerc ddal o leiaf un o'r pedwar cymhwyster a nodir yn rheoliad 2.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 1403 (Cy. 365)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021

Gwnaed		*9 Rhagfyr 2021*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru		*13 Rhagfyr 2021*
Yn dod i rym		*5 Mai 2022*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 30(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**).

Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynghorau Cymuned Cymwys (Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol) (Cymwysterau Clercod) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Mai 2022.

Cymwysterau penodedig clercod

2. At ddiben adran 30(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, rhaid i glerc cyngor cymuned ddal o leiaf un o'r cymwysterau a ganlyn er mwyn i'r cyngor cymuned fodloni'r ail amod cymhwystra—

(a) Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol;

(b) Tystysgrif Addysg Uwch mewn Llywodraethu Cymunedol;

(**1**) 2021 dsc 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) Tystysgrif Addysg Uwch mewn Ymgysylltu a Llywodraethu Cymunedol;

(d) Tystysgrif Addysg Uwch mewn Polisi Lleol.

Rebecca Evans
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
9 Rhagfyr 2021